

Adroddiad Blynyddol gan Gyngorydd 2016/17

Hwn yw'r adroddiad gan y Cyngorydd isod ar ei gweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cyngorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

Cyngorydd: Nicola Roberts
Grwp: Plaid Cymru

Ward: Canolbarth Môn

1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	¹ Ffigyrau Presenoldeb
Cyngor	9 (100%)
Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion	12 (92%)
Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (Mai 2015 ymlaen)	4 (50%)
Pwyllgor Trwyddedu	1 (100%)

Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.

Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel ddeilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrrff allanol, er enghraifft.

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 3 chyfarfod (75%).

2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwyf yn parhau i fod yn lywodraethwr yn Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn ac yn mwynhau. Rwyf yn Gyngorydd tref yn Llangefni ac yn trio mynychu cyn gymaint a sydd yn bosib o fy nghynghorau cymuned sef Llanddyfnan, Bodffordd, Gwalchmai a Bryngwran er yr ambell rhwystr oherwydd eu bod nhw ar yr un noson.

3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwyf wedi bod yn rhan o adfywio marchnad Llangefni. Menter heriol iawn ond mae y gwaith caled yn dal i barhau a'r farchnad erbyn hyn yn hunan gynaliadwy yn lle mewn colled.

Rwyf hefyd yn aelod o bartneriaeth Llangefni. Grwp newydd sydd wedi ei sefydlu i wneud gwahaniaeth ac i adfywio tref Llangefni.

¹ Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

4 - Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

Cwrs sylfaenol diogelu Plant ac Oedolion	15/03/2016
Sesiwn ymwybyddiaeth Sipsiwn a Theithwyr	16/06/2016
Sesiynau Briffio Aelodau (13 allan o 23 = 56%)	Ebrill 2016 – Mawrth 2017

5 – Gweithgareddau a Materion Eraill

Rwy'n parhau i fod yn aelod gweithgar sy'n delio gyda materion amrywiol yn fy ward, ond rwy'n ceisio ymatal rhag bod yn aelod ar is-bwyllgorau a grwpiau llywio'n lleol, a hynny oherwydd y teimlaf ei bod yn bwysig i aros yn ddi-duedd gan y byddai'r gymuned angen llais cryf petai'r materion hyn yn mynd i bleidlais. Rwy'n gobeithio parhau i fod yn eiriolydd effeithiol i'm pobl.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

<http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=268&LLL=1>

Y Cyngorydd Nicola Roberts	Ebrill 2017
-----------------------------------	--------------------